



Ein cyf/Our ref KS/06660/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

SeneddPetitions@cynulliad.cymru

02 Mehefin 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mai ar ran Joe Powell ynglŷn â Deiseb P-05-885 Trafnidiaeth Gyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol ar gyfer Dinasyddion ag Anableddau Dysgu yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau bysiau ledled Cymru yn cael eu darparu mewn ymateb i ddadansoddiad y cwmnïau o'r galw, y gost a phroffidioldeb. Ni all Llywodraeth Cymru nac awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i gwmni bysiau redeg gwasanaeth penodol heb gymhorthdal nac ymgynghori â theithwyr.

O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, mae awdurdodau lleol yn gallu ymrwymo i gontractau i dalu cymorthdaliadau i gefnogi gwasanaethau bysiau lleol, os nad oes gwasanaethau bysiau ar gael, neu os nad yw'r gwasanaethau sydd ar gael yn cael eu darparu i'r safon ofynnol heb gyllid cyhoeddus. Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu pa wasanaethau bysiau neu drafnidiaeth gymunedol y dylai roi cymhorthdal iddynt, ar sail ei asesiad o amgylchiadau a blaenoriaethau lleol. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio pa gyllidebau bynnag maent wedi'u neilltuo at y diben hwnnw, wedi'u hategu gan gyllid grant Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig nodi mai bwriad y cyllid rydym yn ei ddarparu yw ategu'r arian mae awdurdodau lleol yn ei wario ar gefnogi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol o'u cyllidebau eu hunain – nid yw yn lle'r arian hwn. Mae ein dogfen ganllaw ar y mater hwn yn nodi, wrth iddynt ddatblygu eu cynigion ar gyfer defnyddio eu cyllid, y dylai awdurdodau lleol barhau i gynnwys ac ymgynghori â rhanddeiliaid fel man cychwyn. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Yn ddiweddar rydym wedi ymgynghori ar ein Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus. Roedd y Papur Gwyn yn amlinellu'r cynigion ar gyfer diwygio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol ledled Cymru. Mae'r cynigion yn cynnwys deddfwriaeth alluogi a fyddai'n rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddylanwadu ar y gwasanaethau bysiau sy'n cael eu darparu yn eu hardal. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella gwybodaeth am wasanaethau bysiau, a fyddai'n arwain at y cyhoedd yn cael mynediad at wybodaeth fwy cyson a dibynadwy am wasanaethau bysiau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Drwy gydol y cyfnod ymgynghori rydym wedi bod yn trafod â grwpiau cynrychiadol, gan gynnwys Anabledd Cymru. Rydym hefyd wedi bod yn trafod â gweithredwyr bysiau a chynrychiolwyr y diwydiant fel rhan o ddiwyddiadau ymgysylltu ein hymgyngoriad, a gynhaliwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2019 ledled Cymru.

Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer y Papur Gwyn wedi dod i ben. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a byddwn yn cyhoeddi adroddiad maes o law. Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a bydd yr adborth hwn yn helpu i lywio ein camau nesaf ar gyfer polisïau ar wasanaethau bysiau lleol yng Nghymru.

Gallaf hefyd gadarnhau y caiff teithwyr a chanddynt Gerdyn Teithio Rhatach gan awdurdod lleol yng Nghymru deithio yn rhad ac am ddim ar rai o wasanaethau Trafnidiaeth Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys y teithiau canlynol:

Wrecsam – Pont Penarlâg (Rheilffordd y Gororau)

Machynlleth – Pwllheli (Rheilffordd Arfordir y Cambrian) – mis Hydref i fis Mawrth yn unig

Llandudno – Blaenau Ffestiniog (Rheilffordd Dyffryn Conwy)

Amwythig – Llanelli/Abertawe (Rheilffordd Calon Cymru) – mis Hydref i fis Mawrth yn unig

Mae'n ofynnol i gwsmeriaid gael tocyn teithio am ddim gan y swyddfa docynnau cyn teithio. Os nad oes swyddfa docynnau neu os yw ar gau gellir cael y tocyn hwn gan y swyddog tocynnau ar y trê. Gall unrhyw gwsmer â Cherdyn Teithio Rhatach hefyd gael gostyngiad o un rhan o dair oddi ar docynnau i deithio ar Rwydwaith Caerdydd a'r Cymoedd ar ôl 9.30am ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar unrhyw adeg ar y penwythnos ac ar wyliau banc.

Mae'r teithiau hyn yn cael eu nodi mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys argymhellion gan unigolion, yn ogystal ag awdurdodau lleol, gweithredwyr bysiau, Bus Users Cymru ac eraill. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu hadolygu gan Fwrdd Rheoli Strategol TrawsCymru, sydd wedyn yn rhoi cyngor imi ar opsiynau ar gyfer estyn y rhwydwaith, os gellir fforddio gwneud hynny. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal cyn bo hir.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Trafnidiaeth Cymru:

<https://trctrenau.cymru/cy/tocynnau-teithio-rhatach>

Mae'n bosibl hefyd yr hoffech chi wybod ein bod yn drafftio strategaeth ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysiad yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod trafndiaeth yn hanfodol i'n cysylltiadau cymdeithasol ni ac i alluogi pobl i gadw mewn cyswllt â'u cymunedau. Byddwn ni'n ystyried sut gallwn ni ddarparu mynediad at drafnidiaeth fwy cynhwysol a fforddiadwy wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Yn gywir,



Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Minister for Economy and Transport